Docusign Envelope ID: 0412498A-55AD-4DF7-BFCD-A1DF6DE7CCDE

# CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

## GORCHYMYN O DAN ADRAN 21 O DDEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847

## AR GYFER ATAL RHWYSTR

Gan y bydd Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri yn orlawn ddydd Sul, 25 Mai 2025 rhwng 12:00 a 14:00 ac yn debygol o fod wedi'i rhwystro, o'r gyffordd â Stryd Lydan hyd at y gyffordd â Stryd Cerrig, am bellter o 165 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar gyfer Carnifal Llanymddyfri 2025.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, yn unol â'i bwerau o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y stryd a enwyd, sef Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri, y bydd y stryd honno'n cael ei chau i bob traffig cerbydau gan gynnwys beiciau pedal ddydd Sul, 25 Mai 2025 rhwng 12:00 a 14:00, ar yr amod bod cerbydau'r gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad i'r stryd heb oedi mewn argyfwng.

Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r gogledd-ddwyrain fydd parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd cefnffordd yr A40 hyd at y gyffordd â Stryd Cerrig. Troi i'r chwith wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin i ddychwelyd i fan sydd i'r gogledd-ddwyrain o'r man lle mae'r ffordd ar gau.

19110

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Ar y ddogfen hon ym mhresenoldeb:




Steven P Murphy

---

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

Dyddiedig y 20 o Fai 2025